Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanllechid

**Llanllechid**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o roi cynnig ar ein trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanllechid

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanllechid |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 265 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 204 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 14.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 79.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (categorïau A-C) | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/1997 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/03/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/05/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig sy'n meithrin parch a gwerthfawrogiad ymysg holl randdeiliaid Ysgol Llanllechid. Mae ganddi weledigaeth uchelgeisiol ac mae'n cynnig arweinyddiaeth urddasol gan hybu cydweithio a dathlu llwyddiannau. Caiff ei chefnogi'n frwd gan staff a llywodraethwyr sy'n rhannu'r weledigaeth yn gytûn.

Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i gynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n ysgogi a meithrin dychymyg disgyblion. Mae'r cwricwlwm wedi'i seilio ar yr ardal leol ac yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau'n fuddiol, er enghraifft wrth ymchwilio i hanes a diwylliant lleol. Mae staff yn cydweithio â rhieni a'r gymuned i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin, gan gynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt wneud cysylltiadau â digwyddiadau pwysig y gorffennol a'r presennol.

Mae staff yn darparu gweithgareddau gwerthfawr yn yr ardaloedd allanol sy'n datblygu ystod eang o fedrau'r disgyblion yn hynod effeithiol, gan gynnwys eu medrau dysgu annibynnol. Mae'r defnydd creadigol o'r ardaloedd dysgu cyfoethog yn gryfder nodedig yn y ddarpariaeth. Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau her briodol ac uchelgeisiol i ddisgyblion, sy'n arwain at eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac asesu effeithiol, gan gynnwys holi'r disgyblion yn fedrus er mwyn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd dysgu. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn mwynhau dysgu, yn arddel agweddau hynod gadarn at eu dysgu ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo egwyddorion fel bod yn 'glên, caredig a chymwynasgar' yn fedrus, gan gefnogi disgyblion i ddatblygu medrau cymdeithasol aeddfed yn llwyddiannus. Drwy sesiynau lles bwriadus, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion gofalgar. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb yn effeithiol gan sicrhau bod disgyblion yn trin pawb gyda pharch a chwrteisi.

## Argymhellion

Nid oes unrhyw argymhellion penodol ar ôl yr arolygiad hwn.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Dylai'r ysgol barhau ar ei thaith wella.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Llanllechid yn gymuned hapus sy'n darparu addysg a gofal o safon uchel ar gyfer ei disgyblion. Mae'r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig sydd yn arddel diwylliant cryf o barch a gwerthfawrogiad ymysg yr holl staff a disgyblion. Mae'n cynnig arweinyddiaeth urddasol a nodedig lle rhoddir pwyslais ar gydweithio, cyd-ddyheu a chyd-ddathlu llwyddiannau yn hynod effeithiol. Mae'n arweinydd cadarn sydd yn uchel iawn ei pharch gan yr holl randdeiliaid. Mae ei hangerdd heintus a'i gweledigaeth uchelgeisiol yn sicrhau addysg o'r safon orau i bob disgybl, ac yn sail gadarn i lwyddiant yr ysgol. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol iawn gan arweinwyr medrus eraill sy'n rhannu gweledigaeth ac uchelgais y pennaeth i'r carn. Mae'r ymdeimlad o dîm ymysg arweinwyr a staff yn rinwedd nodedig ac mae hyn yn cyfrannu at gydbwysedd teg o gefnogaeth ac atebolrwydd, fel ei gilydd.

Ciplun: Rôl a chyfraniad strategol y corff llywodraethol ym mywyd a gwaith yr ysgol

Mae cyfraniad y llywodraethwyr yn gaffaeliad arwyddocaol i'r ysgol. Mae'r aelodau'n gorff gwybodus a gweithgar sy'n gweithredu'n rhagweithiol yng ngweithgareddau'r ysgol i sicrhau darpariaeth o'r ansawdd uchaf i ddisgyblion.

Er enghraifft, mae aelodau'r corff yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu cyson i gasglu gwybodaeth a gwerthuso elfennau pwysig o waith yr ysgol, megis y ddarpariaeth gwyddoniaeth a thechnoleg. Yn ogystal, maent yn ymgysylltu'n fuddiol â'r disgyblion i gaffael eu barn am eu lles a'r profiadau dysgu sydd ar gael iddynt.

Maent yn cynnig cefnogaeth sylweddol i'r pennaeth ond hefyd yn barod iawn i herio syniadau a phenderfyniadau mewn modd strategol, adeiladol a synhwyrol. Mae eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn nodwedd gref o arweinyddiaeth yr ysgol.

Mae'r holl staff yn cydweithio'n ddiwyd i gynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n darparu profiadau dysgu ysgogol i hyrwyddo a meithrin dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm wedi ei seilio'n gadarn ym milltir sgwâr y disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni ac aelodau'r gymuned i ddwysáu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o'u cynefin. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddysgu am hanes a diwylliant yr ardal leol, fel wrth ymchwilio i fywydau trigolion dylanwadol yr ardal ar wahanol gyfnodau. Trwy ymweliadau addysgol buddiol, mae disgyblion yn deall a gwerthfawrogi dylanwad y diwydiant llechi yn natblygiad yr ardal. Mae'r cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion wneud cysylltiadau pwrpasol â themâu arwyddocaol ym mywydau pobl leol y gorffennol a'r presennol.

Ciplun: Datblygu ymdeimlad cryf disgyblion o berthyn i'r gymuned leol a Chymreictod

Mae'r disgyblion hynaf wedi ymchwilio i fywyd John Petts, sef artist lleol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd Petts yn allweddol wrth gasglu arian i bobl dduon pentref yn Alabama yn dilyn trychineb o ganlyniad i gaethwasiaeth.

Datblygodd y disgyblion eu medrau darllen yn fedrus trwy gaffael gwybodaeth mewn testunau amrywiol am fywydau a thelerau gwaith gweithwyr llechi yn Chwarel y Penrhyn yn ystod Oes Fictoria. Trwy hyn, gwnaeth y disgyblion gysylltiadau dysgu pellach â bywydau'r caethweision yn Jamaica o'r un cyfnod. Yn dilyn hyn, cydweithiodd y disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu wrth ddrafftio a chyflwyno adroddiad i grynhoi'r wybodaeth i'w cyfoedion.

Roedd hyn yn allweddol wrth ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o anghyfiawnder y gorffennol, a phwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb a hawliau teg i bawb o fewn y gymdeithas amlddiwylliannol gyfoes.

Mae staff yn gwahodd ystod eang o ymwelwyr yn gyson i'r ysgol i rannu eu profiadau ac agweddau o'u gwaith gyda'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd gwaith ynghyd â chodi eu dyheadau a'u huchelgais i'r dyfodol.

Mae'r defnydd bwriadus a chreadigol iawn a wneir o'r ardaloedd dysgu cyfoethog yn gryfder amlwg yn y ddarpariaeth. Mae staff yn darparu gweithgareddau dysgu ysgogol a difyr yn yr ardaloedd dysgu allanol sy'n datblygu ystod eang o fedrau'r disgyblion yn hynod effeithiol. Mae medrau cymdeithasol aeddfed y disgyblion ynghyd â'u hagweddau hynod gadarnhaol at ddysgu yn rhinwedd nodedig o'r ysgol.

Mae medrau llafar a llythrennedd bron bob disgybl yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Maent yn datblygu eu medrau llafar a chyfathrebu Cymraeg yn hynod gadarn, er enghraifft wrth ddysgu caneuon traddodiadol Cymreig, sonedau, rapiau ac englynion o fewn sesiynau torfol. Trwy hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gadarn yn eu medrau Cymraeg ac yn caffael gwybodaeth werthfawr am yr iaith, a hanes a diwylliant Cymru.

Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen ac ysgrifennu, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf ysgrifennu llythyr perswâd i swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan eu pryder am ddyfodol coeden hanesyddol ym Mharc Meurig sydd ymhlyg yn Llyfr Mawr Y Plant. O oedran cynnar, mae medrau mathemateg a digidol bron bob disgybl yn datblygu'n hynod gadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac yn gynyddol annibynnol, er enghraifft wrth gyfrifo onglau ac arwynebedd gwahanol lechi o Chwarel y Penrhyn.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol yn llwyddiannus. Mae staff yn holi'r disgyblion yn fedrus, sy'n adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn gelfydd ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau ymhellach. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall nod y sesiynau dysgu, ac yn cynnwys y disgyblion yn bwrpasol wrth drafod yr hyn sy'n bwysig i'w gyflawni o fewn

y gweithgareddau er mwyn llwyddo. Maent yn cynnal cyflymder addas i'r sesiynau dysgu, gan ddarparu cyfnodau o fyfyrio bwriadus er mwyn pwysleisio ac atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o'u dysgu. Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn hynod effeithiol.

Mae'r adborth llafar staff yn effeithiol wrth arwain disgyblion i ddeall sut a phryd i wella eu gwaith. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain, ac ar adegau priodol, gwaith eu cyfoedion. Mae hyn yn ei dro yn arwain at welliannau cyson yn nysgu'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn arddel ac yn hyrwyddo egwyddorion pwysig fel bod yn 'glên, caredig a chymwynasgar' yn llwyddiannus, Mae hyn yn sicrhau agweddau ac ymddygiad hynod gadarnhaol ymysg disgyblion. O fewn y sesiynau myfyrio, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod pwysigrwydd bod yn ddinasyddion gwybodus a gofalgar, er enghraifft.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau personol a chymdeithasol gwerthfawr drwy fod yn aelodau o amryw bwyllgorau. Maent yn cydweithio'n hynod lwyddiannus wrth gyfrannu eu syniadau at sut gellir gwella'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol yn cymryd rhan flaenllaw wrth wneud penderfyniadau ar sut i wella lles corfforol ac emosiynol eu cyfoedion. O ganlyniad i'r cyfleoedd gwerthfawr hyn, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol iawn.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn i adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae staff yn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer y disgyblion ac yn cydweithio'n effeithiol ag ystod eang o asiantaethau allanol er mwyn cyflawni hyn. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n ddiwyd i olrhain cynnydd y disgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fwriadus i ddarparu cymorth ychwanegol er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cyson yn eu medrau. Mae staff yn cydweithio'n fedrus i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu heffeithio'n andwyol gan dlodi ac amddifadedd. Sicrheir cyfle cyfartal i bob disgybl ac mae'r disgwyliadau ohonynt i gyd yr un mor uchel.

Mae'r pennaeth yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau'r ysgol yn amserol. Gwneir ymdrech sylweddol i gaffael barn rhieni am weithgarwch yr ysgol ac mae sicrhau perthynas waith gynhyrchiol â rhieni yn rhan greiddiol o'i llwyddiant.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/07/2024